Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

**Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd**

**Gwybodaeth i fusnesau bwyd yng Nghymru**

SGÔR HYLENDID BWYD

## Egluro'r mesurau diogelu i fusnesau

**Nodyn pwysig**

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i fusnesau sy'n gweithredu **yng Nghymru** yn unig.

Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn gweithredu yn wahanol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ac mae rhai gwahaniaethau hefyd yn y mesurau diogelu. Gall busnesau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ddysgu mwy am hyn drwy'r ddolen hon: http://www.food.gov.uk/policy-advice/hygieneratings/hygienescoresresources/fhrsguideforbusiness/ (Saesneg yn unig).

## Cyflwyniad




Mae'r 'Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd' yn fenter ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Yng Nghymru, mae'r cynllun yn gweithredu yn unol â gofynion Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013[1] a Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013[2].

Mae'r Cynllun yn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am safonau hylendid safle bwyd ar yr adeg y cafodd ei arolygu gan swyddogion diogelwch bwyd yr awdurdod lleol i weld a yw'n cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol. Mae'r sgôr hylendid bwyd a roddir yn adlewyrchu canfyddiadau'r arolygiad. Diben y cynllun yw galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus am y lleoedd y maent yn bwyta neu'n siopa am fwyd, a thrwy hynny, annog busnesau i wella'u safonau hylendid.

Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn deg i fusnesau, cafodd nifer o fesurau diogelu eu cynnwys ynddo, sef:

- hawl i apelio
- 'hawl i ymateb'
- cyfle i wneud cais am ailymweliad pan fydd gwelliannau wedi'u gwneud er mwyn ailasesu'r safle i gael sgôr 'newydd'.

[1] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/2/contents/enacted – cliciwch ar 'Cymraeg'
[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/2903/contents/made – cliciwch ar 'Cymraeg'

Isod, rhoddir gwybodaeth i fusnesau bwyd am y gwahanol fesurau hyn.

## Egluro'r drefn apelio

### Beth yw diben y drefn apelio?

Ar ôl i swyddog diogelwch bwyd o'ch awdurdod lleol arolygu hylendid eich safle, cewch wybod yn ysgrifenedig – o fewn 14 diwrnod (sy'n cynnwys penwythnosau a gwyliau'r banc) – beth yw eich sgôr hylendid bwyd. Os nad ydych yn credu bod y sgôr yn gywir neu'n deg h.y. nid yw'n adlewyrchu'r safonau hylendid adeg yr arolygiad neu ni chafodd y meini prawf eu cymhwyso'n gywir pan gafodd y sgôr ei rhoi, gallwch apelio yn ei herbyn.

### Beth ddylwn i ei wneud os ydw i am apelio yn erbyn fy sgôr hylendid bwyd?

Mae'n syniad da siarad yn anffurfiol â'r swyddog diogelwch bwyd a fu'n arolygu'ch safle i gychwyn – cewch fanylion cyswllt y swyddog hwn pan gewch wybod beth yw eich sgôr. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall sut y cafodd eich sgôr ei phennu a gweld a allwch ddatrys y mater heb fod angen i chi apelio.

Ar ôl hynny, os ydych yn dal i gredu nad yw'r sgôr a roddwyd yn gywir neu'n deg, cewch gyflwyno apêl. Nodwch nad yw unrhyw drafodaethau yr ydych yn eu cael yn newid y terfyn amser sydd gennych i wneud apêl – gweler y cwestiwn nesaf.

Rhaid i chi gyflwyno apêl drwy lenwi ffurflen apelio safonol. Gallwch lawrlwytho'r ffurflen hon yma.

Ar ôl llenwi'r ffurflen, dylech ei hanfon at Swyddog Bwyd Arweiniol eich awdurdod lleol – unwaith eto, cewch fanylion cyswllt y swyddog hwn pan gewch wybod beth yw eich sgôr.

### Faint o amser sydd ar gael i mi gyflwyno apêl?

Rhaid i chi gyflwyno'ch apêl ar y ffurflen bwrpasol (gweler y cwestiwn uchod) cyn pen 21 diwrnod ar ôl i chi gael gwybod am eich sgôr hylendid bwyd. Mae'r cyfnod hwn yn cynnwys penwythnosau a gwyliau'r banc.

Os na fyddwch yn apelio yn ystod y cyfnod hwn, bydd eich awdurdod lleol yn cyhoeddi eich sgôr hylendid bwyd ar-lein drwy food.gov.uk/ratings – cliciwch ar 'Cymraeg'.

### Beth fydd yn digwydd nesaf a phryd fydda i'n gwybod beth yw'r canlyniad?

Os byddwch yn cyflwyno apêl, bydd food.gov.uk/ratings yn dangos bod eich sgôr hylendid bwyd yn 'aros i gael ei chyhoeddi'.

Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan swyddog awdurdodedig nad oedd yn rhan o'r gwaith o asesu'r sgôr yr ydych yn apelio yn ei herbyn.

Cewch wybod am y canlyniad cyn pen 21 diwrnod o'r dyddiad y daeth yr apêl i law eich awdurdod lleol.

Unwaith y cewch wybod am ganlyniad yr apêl, bydd eich sgôr hylendid yn cael ei chyhoeddi ar-lein drwy food.gov.uk/ratings – cliciwch ar 'Cymraeg'.

### Beth os nad ydw i'n cytuno â chanlyniad yr apêl?

Gallwch herio penderfyniad yr awdurdod lleol drwy adolygiad barnwrol.

Hyd yn oed os ydych yn penderfynu gwneud hyn, bydd eich sgôr yn dal i gael ei chyhoeddi ar food.gov.uk/ratings – cliciwch ar 'Cymraeg'.

Os ydych chi o'r farn nad yw eich awdurdod lleol wedi dilyn prosesau yn gywir, gallwch ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r cyngor (gan gynnwys dwyn y mater gerbron yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol lle bo hynny'n briodol). Dylech allu dod o hyd i fanylion am sut i gwyno ar wefan eich awdurdod lleol.

## Egluro'r 'hawl i ymateb'

### Beth yw diben yr 'hawl i ymateb'?

Mae'n gyfle i chi egluro wrth gwsmeriaid unrhyw gamau yr ydych wedi'u cymryd yn sgil eich arolygiad i wella'r safonau hylendid ar eich safle neu roi gwybod am unrhyw amgylchiadau anarferol adeg yr arolygiad a allai fod wedi effeithio ar eich sgôr hylendid bwyd.

Nid yw'n gyfle i chi gwyno am y cynllun sgorio hylendid bwyd neu'ch swyddog diogelwch bwyd, na'u beirniadu.

### Beth ddylwn i ei wneud os ydw i am ddefnyddio fy 'hawl i ymateb'?

Dylech anfon eich sylwadau'n ysgrifenedig at y swyddog diogelwch bwyd a fu'n arolygu'ch safle – cewch fanylion cyswllt y swyddog pan gewch wybod beth yw eich sgôr.

Gallwch wneud hyn drwy lenwi ffurflen safonol sydd ar gael i'w lawrlwytho yma. Nid oes yn rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon. Gallwch gyflwyno eich sylwadau ar fformat ysgrifenedig arall, gan nodi'n glir eich bod yn cyflwyno'r sylwadau yn rhinwedd eich 'hawl i ymateb'.

### Faint o amser sydd ar gael i mi gyflwyno fy sylwadau?

Nid oes dyddiad cau ar gael, felly gallwch gyflwyno'ch 'hawl i ymateb' ar unrhyw adeg hyd nes eich arolygiad nesaf pan fyddwch yn cael sgôr hylendid newydd.

### Beth fydd yn digwydd nesaf?

Nid yw'n dderbyniol i chi gyflwyno 'hawl i ymateb' sy'n cynnwys sylwadau sy'n sarhaus, yn ddifenwol, yn amlwg yn anghywir, neu'n amherthnasol. Yn achos sylwadau o'r fath, fe'ch cynghorir nad yw'r testun yn bodloni diben yr 'hawl i ymateb' a bydd gofyn i chi ddiwygio'r testun.

Fel arall, bydd unrhyw beth yr ydych yn ei ddweud yn eich 'hawl i ymateb' yn cael ei gyhoeddi ar-lein gyda'ch sgôr hylendid yn food.gov.uk/ratings – cliciwch ar 'Cymraeg'.

Bydd eich 'hawl i ymateb' yn aros ar y wefan hyd nes i chi gael sgôr newydd.

## Egluro ailymweliadau y gwneir cais amdanynt

### Beth yw diben yr ailymweliadau y gwneir cais amdanynt?

Byddwch yn cael sgôr hylendid bwyd newydd yn awtomatig bob tro y bydd eich safle'n cael ei arolygu gan eich awdurdod lleol. Mae amlder yr arolygiadau rheolaidd yn dibynnu ar y risg i iechyd pobl. Po fwyaf yw'r risg, yr amlaf y cewch eich arolygu.

Os byddwch yn gwella'r safonau hylendid y soniodd swyddog diogelwch bwyd yr awdurdod lleol wrthoch amdanynt yn yr arolygiad rheolaidd diwethaf, gallwch ofyn am ailymweliad cyn yr arolygiad rheolaidd nesaf er mwyn ailasesu safonau hylendid eich safle, gyda golwg ar roi sgôr hylendid bwyd newydd ac uwch i chi.

### Beth ddylwn i ei wneud cyn gwneud cais am ailymweliad?

Rydym yn argymell eich bod yn edrych yn ofalus ar sylwadau'r swyddog diogelwch bwyd, yn y llythyr neu'r adroddiad a roddwyd i chi, am y safonau hylendid adeg eich arolygiad diwethaf, ac yn gwneud yn siŵr eich bod wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd. Gallwch drafod unrhyw faterion nad ydych yn siŵr yn eu cylch gyda'ch swyddog diogelwch bwyd neu ofyn am ragor o gymorth o ran sut i wella'r safonau.

Yn ystod yr ailymweliad, bydd y swyddog yn pwyso a mesur y safonau'n gyffredinol – nid dim ond y materion penodol yr ydych wedi bod wrthi'n eu gwella – felly gallai eich sgôr hylendid bwyd godi, disgyn neu aros yr un peth.

### Beth ddylwn i ei wneud os ydw i am wneud cais am ailymweliad?

Dylech gyflwyno'ch cais yn ysgrifenedig i'r swyddog diogelwch bwyd a fu'n arolygu'ch safle. Cewch fanylion cyswllt y swyddog hwn pan gewch wybod beth yw eich sgôr.

Rhaid i chi wneud hyn drwy lenwi ffurflen safonol, sydd ar gael i'w lawrlwytho yma.

Rhaid i chi egluro pa gamau yr ydych wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn eich arolygiad diwethaf a dylech gynnwys tystiolaeth ategol, er enghraifft, derbynebau neu ffotograffau i ddangos bod gwaith wedi'i gwblhau. Mae hyn yn bwysig gan y gallai'r awdurdod lleol wrthod eich cais os na fyddwch yn darparu digon o wybodaeth a thystiolaeth.

Os caiff y cais ei wrthod, cewch eglurhad o'r rhesymau dros hynny a chyngor ar unrhyw gamau y mae angen i chi eu cymryd neu unrhyw dystiolaeth y mae angen i chi ei darparu cyn bod modd cytuno i'ch cais. Os nad ydych yn cytuno â phenderfyniad yr awdurdod lleol i wrthod eich cais, gallwch godi'r mater gyda'r swyddog bwyd arweiniol. Os nad oes modd i chi ddatrys y materion gyda'r swyddog bwyd arweiniol, gallwch ddefnyddio trefn gwyno eich awdurdod lleol. Bydd manylion ar gael ar wefan yr awdurdod.

**Sawl cais am ailymweliad y mae modd i mi ei wneud rhwng ymweliadau rheolaidd?**
Nid oes cyfyngiad ar nifer y ceisiadau am ailymweliad ond rhaid i amodau penodol gael eu bodloni cyn bod yr awdurdod lleol yn cytuno i ailymweld â'r safle.

Os ydych wedi cyflwyno apêl yn erbyn eich sgôr, rhaid i'r mater gael ei ddatrys cyn y bydd eich awdurdod lleol yn cytuno i ailymweld â'r safle.

Rhaid i chi arddangos sticer eich sgôr hylendid bresennol mewn man amlwg ar eich safle.

Rhaid i chi gytuno i roi mynediad i'r arolygydd at eich safle at ddibenion ailsgorio.

**A fydd rhaid i mi dalu am yr ailymweliad?**

Codir tâl arnoch chi am ailymweliad ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu'r ffi hwn ymlaen llaw. Dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael gwybodaeth am sut i dalu.

**Faint o amser sydd ar gael i mi wneud cais?**

Nid oes dyddiad cau ar gael – gallwch wneud cais ar unrhyw adeg ar ôl i chi gymryd camau i gyflwyno'r gwelliannau a nodwyd yn eich arolygiad. Fodd bynnag, ni allwch bennu pa bryd fydd yr ailymweliad yn digwydd.

**Pa mor fuan fydd yr awdurdod lleol yn ymweld?**

Bydd yr ailymweliad yn cael ei wneud o fewn tri mis o'r dyddiad y byddwch yn cyflwyno cais ysgrifenedig.

Ni chewch wybod ddyddiad nac amser penodol yr ailymweliad.

**Beth fydd yn digwydd nesaf a pha bryd fydda i'n gwybod canlyniad yr ailymweliad?**

Yn ystod yr ailymweliad, bydd y swyddog diogelwch bwyd yn asesu'r safonau hylendid ar eich safle a byddwch yn cael gwybod yn ysgrifenedig – o fewn 14 diwrnod (sy'n cynnwys penwythnosau a gwyliau'r banc) – beth yw eich sgôr hylendid bwyd newydd. Gallai barhau i fod yr un fath, gallai godi neu gallai ddisgyn.

Yn yr un modd â'r sgôr hylendid gwreiddiol, cewch apelio yn ei herbyn os nad ydych yn credu ei bod yn gywir neu'n deg, neu gallwch gyflwyno 'hawl i ymateb' i'w chyhoeddi ar-lein drwy food.gov.uk/ratings – cliciwch ar 'Cymraeg'.